# CYNGOR GWYNEDD

## Rôl a chyfrifoldebau Cadeirydd Pwyllgor

| | |
|---|---|
| **1) ATEBOL I** | • Y Cyngor Llawn<br>• Aelodau'r Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| **2) SWYDDOGAETHAU PENODOL** | 2.1 <u>Rhoi arweiniad a chyfeiriad</u><br>• Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.<br>• Gofalu bod yr ymgeiswyr a/neu bartïon eraill yn fodlon ar dryloywder y broses benderfynu.<br>• Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth benderfynu, yn unol â gofynion y cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol.<br>• Gofalu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.<br>• Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd. (Gweler y Cyfansoddiad, Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn)<br><br>2.2 <u>Hyrwyddo swyddogaeth y pwyllgor</u><br>• Bod yn llysgennad i'r pwyllgor, gan feithrin dealltwriaeth o'i waith.<br>• Gweithredu yn ôl gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd têg a chywir.<br>• Gofalu bod y pwyllgor yn gweithredu'n drylwyr a gwrthrychol, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo.<br><br>2.3 <u>Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau</u><br>• Hyrwyddo enw da ac uniondeb y pwyllgor a'i benderfyniadau.<br>• Deall swyddogaethau'r cynghorwyr, y swyddogion a phartïon allanol.<br>• Hyrwyddo a chynnal llywodraethu da'r Cyngor.<br><br>2.4 <u>Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol</u><br>• Cytuno rhaglen a nôd ac amcanion eglur i bob cyfarfod.<br>• Rheoli'r ffordd mae'r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at y côd ymddygiad, y rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill.<br>• Gofalu bod y gwaith paratoi priodol yn cael ei wneud ymlaen llaw (sy'n cynnwys, fel sy'n briodol, cyfarfodydd paratoi neu friffio, egluro rolau aelodau'r pwyllgor, swyddogion a mynychwyr eraill, amserlennu).<br>• Gofalu bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu'n briodol, ac yn derbyn ymatebion priodol.<br>• Gofalu bod y pwyllgor yn glir ar ei benderfyniad a chrynhoi unrhyw gynigion a'r rhesymau dros y penderfyniad.<br>• Cynnal ffowcws y Pwyllgor a chadw rheolaeth dynn ar y rhaglen<br><br>2.5 <u>Cyfranogiad a datblygiad aelodau'r pwyllgor</u><br>• Annog perfformiad uchel gan bob aelod o'r pwyllgor.<br>• Asesu perfformiad torfol y pwyllgor a hwyluso gweithgareddau datblygu priodol a/neu gymryd y camau priodol. |

| | |
|---|---|
| **3) GWERTHOEDD** | 3.1 Ymrwymo i werthoedd y Cyngor ac egwyddorion ymddygiad aelodau.<br><br><u>Gwerthoedd y Cyngor</u><br>• Parch<br>• Gweithio fel tîm<br>• Gwerth am arian<br>• Gwasanaethu<br>• Positif<br><br><u>Egwyddorion ymddygiad aelodau</u><br>• Anhunanoldeb<br>• Gonestrwydd<br>• Uniondeb a Priodoldeb<br>• Cynnal y gyfraith<br>• Stiwardiaeth<br>• Gwrthrychedd mewn penderfyniadau<br>• Cydraddoldeb a pharch<br>• Bod yn agored<br>• Atebolrwydd<br>• Arweinyddiaeth |